HYSBYSIAD O GADARNHAU GORCHYMYN

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
ADRAN 257
A PHARAGRAFF 7 O ATODIAD 14

Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus
(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 12 yng Nghymuned Offa (Wrecsam cynt))
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2004

Ar 22 Medi 2004, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y gorchymyn uchod.

Effaith y gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r llwybr troed cyhoeddus fel a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r Rhybudd hwn a chreu llwybr troed arall fel a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodiad.

Gellir gweld a chael copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map o'r gorchymyn yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam yn ystod oriau swydda arferol.

Daw'r gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn tystio y cydymffurfiwyd â thelerau Erthygl 2 o'r gorchymyn ond os bydd unrhyw sy'n tybio iddo gael cam gan y gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo ar y sail nad yw o fewn pwerau'r ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn neu unrhyw reoliad a wnaed gan y ddeddf honno, gall ymgeisio i'r Uchel Lys dan Adran 287 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 o fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad fel sy'n ofynnol gan baragraff 7 o Adran 14 y Ddeddf honno.

ATODIAD

Rhan 1

Disgrifiad o safle'r llwybr neu ffordd presennol (rhan)

Rhan o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 12 yng Nghymuned Offa (Wrecsam cynt) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, o led amhenodol, o allanfa ddwyreiniol twnnel dan y rheilffordd ar gyfeirnod grid 33289 35056 i gyfeiriad dwyreiniol yn gyffredinol ac yna i gyfeiriad dwyreiniol gogledd-ddwyreiniol am oddeutu 95 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 33298 35057, fel a ddangosir gan y linell ddu barhaus rhwng pwyntiau A a B ar y map sydd ynghlwm wrth y rhybudd hwn.

Rhan 2

Disgrifiad o safle'r ffordd arall

Llwybr troed cyhoeddus, hynny yw, llwybr lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar ffordd yn unig, 1.8 metr o led, o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 12 yng Nghymuned Offa (Wrecsam cynt) o allanfa ddwyreiniol twnnel dan y rheilffordd ar gyfeirnod grid 33289 35056 i gyfeiriad gogleddol gogledd-ddwyreiniol am oddeutu 34 metr i gyfeirnod grid 33290 35058 yna i gyfeiriad dwyreiniol de-ddwyreiniol am oddeutu 51 metr (gyferbyn ag ochr adeilad i'w adeiladu fel rhan o'r datblygiad) i gyfeirnod grid 33295 35057 lle disgwylir adeiladu croesfan i gerddwyr ar hyd ffordd, yna troi i gyfeiriad dwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 21 metr i Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 12 ar gyfeirnod grid 33298 35057, fel a ddangosir gan y linell ddu doredig rhwng pwyntiau A, C, D, E a B ar y map sydd ynghlwm wrth y rhybudd hwn.

Dyddiedig y 27ain diwrnod hwn o Fedi 2004

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Blwch SP 1284
Wrecsam
LL11 1WF

MR/RG/NOTICE1-SiteNo1Offa